**COFNODION DRAFFT o'r Grwp Trawsbleidiol ar BLANT**
19 Tachwedd 2013
Ystafell Gynadledda 21
Noddwyd gan Julie Morgan AC

**AGENDA**
**Cadeirydd: Julie Morgan AC**
**12.30:** Croeso a chyflwyniad - Julie Morgan AC
**12.45-13.25:** Yr Athro Kirsten Sandberg: 'Y rheidrwydd hawliau dynol i wahardd pob cosb gorfforol i blant . '
**13.00-13.10:** Ymatebion y grŵp trawsbleidiol.
**13.10-13.25:** Cwestiynau a sylwadau o'r llawr
**1:25:** Diwedd.

**TRAFODION**

- Agorodd Julie Morgan AC y cyfarfod.
- Diolchodd Julie Morgan i bawb am ddod i'r cyfarfod a chyflwynodd yr Athro Kirsten Sandberg, Cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Rhoddodd yr Athro Sandberg gyflwyniad PowerPoint (ceir copi ynghlwm).
- Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r pynciau canlynol:
    - Diddordeb Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig mewn gwahardd cosb gorfforol - mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn codi'r mater hwn yn rheolaidd â gwladwriaethau drwy adroddiadau gwladwriaeth.
    - Sylw cyffredinol rhif 8 - yn canolbwyntio ar gosb gorfforol.
      Mae gwahardd a dileu cosb gorfforol yn ddyletswydd ddybryd a diamod ar y wladwriaeth. Mae hyn yn hanfodol i greu cymdeithasau di-drais. Erthygl 16 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw man cychwyn y confensiwn o ran cael gwared ar gosb gorfforol - pob math o drais corfforol a meddyliol. Nid yw 'lles pennaf y plentyn' yn unrhyw gyfiawnhad dros gosb gorfforol 'resymol'. Mae'n hanfodol fod Cyfraith Teulu yn gwahardd trais yn erbyn plant a bod y Gyfraith Droseddol yr un mor gymwys i blant ag y mae i oedolion.
    - Cyrff cytuniad eraill - mae pwyllgorau eraill y Cenhedloedd Unedig yn cymeradwyo gwaharddiad llawn hefyd.
    - Sylwadau terfynol i'r DU ym 1995 - Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn poeni am natur amwys y mynegiant o gosb resymol.
    - Sylwadau terfynol i'r DU yn 2002 - Casgliad y Pwyllgor oedd nad oedd y cynigion i gyfyngu yn hytrach na dileu'r amddiffyniad 'cosb resymol' yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r confensiwn. Mae'r

amddiffyniad o 'gosb resymol' yn tanseilio gwaith arall i hyrwyddo rhianta addysgol a chadarnhaol.

- o Sylwadau terfynol i'r DU yn 2008 - Croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd pob cosb gorfforol yn y cartref. Croesawodd safbwynt Cymru, ond yn anffodus, nid oedd gan Gymru y pŵer i gyflawni'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ar y pryd. Mae Cymru yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol, ond mae diffyg deddfwriaeth yn tanseilio hyn.
- o Argymhelliad i'r DU yn 2008 - gwahardd pob cosb gorfforol yn y teulu, mynd ati i hyrwyddo dulliau cadarnhaol a di-drais o ddisgyblu, codi ymwybyddiaeth am hawliau plant. Y ddeddfwriaeth yn hanfodol.
- o Ymrwymiad Cymru - Adroddiad 2007 - "The Welsh Assembly Government has already committed itself to supporting a ban on physical punishment and has funded publication of a booklet *Help in Hand* given to all new parents that advises on positive ways of dealing with behaviour and avoiding smacking."
- o Sylwadau terfynol i'r DU yn 2008
- o Datblygiad pellach – cynnydd pellach o ran y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn 2011, pwerau datganoledig yn 2011, a'r Cynllun Hawliau Plant yn 2012.
- o Cymru - beth nesaf?

- Sylwadau o'r llawr:

Christine Chapman AC; Lindsay Whittle AC; Aled Roberts AC; Eleri Thomas (ar ran Keith Towler, y Comisiynydd Plant); Richard Cook, un o Gynghorwyr Caerdydd; Keith Ingham; Catriona Wiliams (Plant yng Nghymru); Pam Davies (Dechrau'n Deg); Jan Pickles (NSPCC); Rhodri Morgan; Sara Reid ('Sdim Curo Plant!); Andy James (Barnardo's); Pat Dunmore; Tim Ruscoe (Barnardo's); a sawl un arall.

Pwyntiau a wnaed:

- o Mae'r potensial ar gyfer newid yma.
- o Mae'r profiad o wledydd eraill yn dangos bod newid yn bosibl.
- o Mae'r mater yn mynd law yn llaw â'r mater o drais yn y cartref.
- o Mae angen inni weithredu ar gyfer pob plentyn.
- o Cefnogaeth holl Gomisiynwyr Plant y DU.
- o Mae angen darbwyllo aelodau meinciau cefn a phawb arall i newid y gyfraith ac mae angen iddynt fod yn argyhoeddedig am yr angen i wneud hynny.
- o Y mwyafrif llethol i gefnogi'r gynghrair 'Sdim Curo Plant!' o Gyngor Caerdydd - rhoddwyd bleidlais rydd.
- o Beth sydd wedi newid - mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar hyn yn y gorffennol ac mae eisoes wedi cytuno ar hyn.
- o Mae Dechrau'n Deg yn gweithio ar y mater gyda rhieni.
- o Ar lawr gwlad, byddai newid y gyfraith yn helpu i hyrwyddo rhianta cadarnhaol.
- o Nid oes unrhyw wledydd sydd wedi gwahardd slapio yn difaru gwneud hynny.
- o Mae'n rhwymedigaeth ryngwladol.

- Daeth Julie Morgan AC â'r cyfarfod i ben.

DRAFT